Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

**Y Pwyllgor Menter a Busnes**
**Enterprise and Business Committee**

Edwina Hart AC
Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth
Llywodraeth Cymru

20 Hydref 2011

Annwyl Edwina

Hoffem ddiolch i chi a'ch swyddogion am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Menter a Busnes ar 12 Hydref fel rhan o'n gwaith craffu ar Gynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2012-13.

Hoffai'r Pwyllgor gyflwyno nifer o sylwadau i'w hystyried gennych. Rydym hefyd yn ysgrifennu at y Gweinidog Addysg a Sgiliau ac at y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau. Mae'r tri llythyr yn cael eu copïo i'r Pwyllgor Cyllid er mwyn llywio ei waith craffu strategol cyffredinol ar y Gyllideb Ddrafft, a chyhoeddir hwy ar ein gwefan.

**Cyflwyno'r Gyllideb Ddrafft**
Ein cyfrifoldeb ni yw craffu ar wariant a pholisïau Llywodraeth Cymru a dwyn i gyfrif y Gweinidogion ar ran pobl Cymru. Rydym yn croesawu'r ffaith bod y tablau cyllidebol yn eich papur naill ai'n dangos newidiadau o un flwyddyn i'r llall, neu'n galluogi iddynt gael eu cyfrif, a bod y mwyafrif o'r dadansoddiadau yn eich papur hefyd yn canolbwyntio ar newidiadau o un flwyddyn i'r llall.

Bae Caerdydd
Cardiff Bay
CF99 1NA

Clerc/Clerk: Dr Siân Phipps, Ffôn /Tel: 029 2089 8582
E-bost /Email:enterprise.committee@wales.gov.uk

Fodd bynnag, os ydym am fod yn effeithiol yn ein rôl, byddwn angen rhagor o eglurder a mwy o fanylion o ran y wybodaeth a gyflwynir i ni. Gwnaed ein tasg o graffu'n anoddach hefyd gan na chawsom eich papur tan 7 Hydref, y dydd Gwener cyn y sesiwn graffu.

1. **Rydym yn argymell y dylem, yn y blynyddoedd nesaf, gael papur ar y gyllideb sy'n dangos yn eglur a manwl lle y gwnaed newidiadau, ac o ba linellau sylfaen y maent wedi eu cyfrif. Rydym hefyd yn argymell, mewn Cyllidebau Drafft yn y dyfodol, y dylai'r newidiadau arfaethedig gael eu cyflwyno a'u dadansoddi'n gyson â'i gilydd ym mhapur y Gweinidog ar sail flynyddol ac y dylem gael y wybodaeth hon o leiaf un wythnos cyn y sesiwn graffu ar y gyllideb.**

Rydych wedi cytuno i anfon nodyn atom ar y trosglwyddiadau cyllidebol sydd wedi digwydd hyd yma o fewn gwahanol feysydd eich portffolio. Er gwybodaeth, gwnaethpwyd cais gennym hefyd, trwy'r Clerc, ar 28 Medi, am ddadansoddiad o'r dyraniadau o fewn eich cyllideb ar gyfer y meysydd polisi a ganlyn: hyrwyddo mewnfuddsoddi; pob un o'ch naw sector allweddol; y cynllun arian busnes ad-daladwy; Ardaloedd Menter; a chymorth ar gyfer microfentrau.

2. **Gan na chawsom y wybodaeth hon, gofynnwn fod y manylion hyn yn cael eu hanfon atom cyn gynted â phosibl.**

**Alinio'r Gyllideb Ddrafft a Darparu Polisïau**

Mae'n ymddangos bod pob Cyllideb Ddrafft Adrannol arall Llywodraeth Cymru wedi'u hail-alinio i gyflawni'r ymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu newydd. Roeddem yn deall yn ôl eich ymateb i'n cwestiynau yn hyn o beth eich bod yn parhau i fod ar ganol y broses o wneud yn derfynol gynlluniau gwariant eich portffolio, gan eich bod yn parhau i adolygu meysydd polisi allweddol.

Rydym yn gwerthfawrogi y bydd angen rhyw gymaint o hyblygrwydd i addasu gwario eich Adran i'r newidiadau yn eich blaenoriaethau, a hefyd i'r newidiadau yn yr hinsawdd economaidd pan fyddant yn codi.

Fodd bynnag, mae hefyd angen gwariant craidd sy'n galluogi ni fel Pwyllgor i fonitro gwariant dros flynyddoedd dilynol ac gwerthuso gweithgareddau eich Adran yn ôl y targedau a'r canlyniadau a bennwyd. Rydych wedi dweud bod y targedau hynny yn parhau i gael eu ffurfio.

3. **Rydym yn argymell eich bod yn rhoi gwybodaeth reolaidd i ni am sut y mae eich blaenoriaethau a'ch cyllideb yn cael eu halinio, a hoffem pe baech yn ymddangos eto gerbron y Pwyllgor yn y Flwyddyn Newydd i roi gwybod i ni am gynnydd i gyflawni'r alinio hwnnw.**

**Mesur Perfformiad**

Roeddem yn pryderu am gynnydd o ran gosod targedau perfformiad ar gyfer gweithgareddau eich Adran. Rydym yn sylweddoli bod angen i Lywodraeth Cymru ddatblygu dull mwy soffistigedig a hirdymor o fesur a gwerthuso perfformiad, ac eich bod ar ganol datblygu'r gwaith hwn ar hyn o bryd. Hefyd rhoesoch wybod i ni eich bod yn sefydlu llinellau sylfaen a thargedau ar gyfer mesur canlyniadau.

4. **Hoffem pe baech yn cyhoeddi eich fframwaith mesur perfformiad cyn gynted ag y bo modd ac edrychwn ymlaen at graffu arno maes o law.**

**Cynllun Arian Busnes Ad-daladwy**

Deallwn fod Llywodraeth Cymru wedi newid ei chymorth i fusnesau o grantiau i fenthyciadau, ond fel y trafodwyd yn y sesiwn dystiolaeth, nid oedd modd i ni adnabod lle mae'r ffrwd refeniw o'r cymorth hwnnw i'w weld yn y Gyllideb Ddrafft.

5. **Gwnaethoch gynnig rhoi papur i ni yn y Flwyddyn Newydd am faint o refeniw y gellid ei ddisgwyl yn y dyfodol o'r cynllun arian busnes ad-daladwy, a byddwn yn awyddus i ddadansoddi'r manylion maes o law.**

**Mewnfuddsoddi**

Dywedwyd wrthym eich bod yn anelu at gael dull gweithredu mwy cydlynol o ran mewnfuddsoddi a'i bod yn bosibl y bydd angen ymestyn adnoddau ymhellach yn y maes hwn. Esboniwyd gennych eich bod am weld gwelliant yn safle Cymru yn y DU, mwy o broffesiynoldeb, a mwy o ddefnydd o "Tîm Cymru". Hefyd cyfeiriodd swyddogion at welliannau a oedd yn angenrheidiol yn ansawdd cynnig Cymru a nifer y swyddi sy'n dod i mewn i Gymru.

6. **Rydym yn gwerthfawrogi eich bod yn parhau i adolygu polisi mewnfuddsoddi, ond rydym yn eich annog i nodi rhai canlyniadau**

**amlwg a ddisgwylir gennych o ganlyniad i wariant a gweithgareddau eich Adran yn y maes hwn.**

**Seilwaith**

Dywedwyd wrthym eich bod yn hyderus y bydd arian digonol ar gael ar gyfer darparu prosiect Band Eang y Genhedlaeth Nesaf (neu "Fynediad yr 21ain Ganrif"), er, rydym yn sylweddoli nad oedd modd i chi roi llawer o fanylion i ni ar y dyraniad cyllidebol ar gyfer hyn oherwydd y cyd-drafodaethau sy'n digwydd ar y contract ar hyn o bryd.

7. **Rydym yn argymell, pe digwydd codiadau posibl mewn costau yn ystod cyfnod gweithredu prosiect Mynediad yr 21ain Ganrif y bydd Llywodraeth Cymru'n dod o hyd i'r adnoddau i dalu'r costau ychwanegol hynny, a'ch bod yn rhoi rhagor o wybodaeth i ni ar y prosiect hwn pan fydd cytundeb ar y contract.**

**Cynaliadwyedd**

Pan wnaethom ofyn i chi a oedd gwerthusiad cynaliadwyedd wedi'i wneud wrth baratoi Cyllideb Ddrafft eich adran, dywedwyd wrthym gennych eich bod wedi cymryd golwg eang ar faterion cynaliadwyedd. Felly roeddem yn falch o glywed eich bod am wneud rhagor o waith yn hyn o beth rhwng nawr a phan fyddwch yn paratoi'r gyllideb derfynol.

8. **Rydym yn eich annog i wneud y gwaith a addawyd ar werthusiad cynaliadwyedd o'ch cyllideb derfynol, a hefyd i ystyried amodau ariannu ar gyfer cymorth Llywodraeth Cymru i fusnesau sy'n hyrwyddo materion gwyrdd fel lleihau allyriadau carbon, yn hyrwyddo defnyddio ynni'n effeithiol, ac yn cynnal cyfrifoldebau cymdeithasol corfforaethol.**

**Datganiad y Prif Weinidog ar Ysgogiad Economaidd**

Ar y prynhawn yn dilyn y sesiwn graffu ar y gyllideb, gwnaeth y Prif Weinidog ddatganiad ar ddull gweithredu Llywodraeth Cymru o ran ysgogiad economaidd.


9. **Byddem yn croesawu nodyn, ar yr amser priodol, sy'n nodi'r graddau y bydd unrhyw faint o'r arian ychwanegol yn cael ei ddyrannu i'ch adran, a beth y bwriedir iddo'i ddarparu.**

**Gwybodaeth ychwanegol**

**10. Cytunwyd gennych i anfon manylion am brosiectau llwyddiannus ac arbedion a sicrhawyd mewn cysylltiad â'r Rhaglen Buddsoddi i Arbed a'r Rhaglen Effeithlonrwydd ac Arloesi.**

Diolch i chi am gynorthwyo'r Pwyllgor yn ei waith, ac edrychwn ymlaen at gael eich ymateb i'r pwyntiau sy'n codi yn y llythyr hwn, cyn gynted ag sy'n bosibl.

Yn gywir,



Nick Ramsay AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Menter a Busnes

c.c. Jocelyn Davies AC, Cadeirydd, y Pwyllgor Cyllid